Beibl i Blant
yn cyflwyno



# Un o arweinwyr y Deml yn dod at Iesu

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus
addaswyd gan: M. Maillot; Sarah S.
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Pan aeth Iesu i'r Deml un diwrnod, gwelodd fod pobl yno yn amharchu tŷ Duw. Roedden nhw'n gwerthu anifeiliaid ac yn cyfnewid arian yng nghanol y Deml!



Ar ôl gwneud chwip allan o reffynnau, gyrrodd Iesu y gwerthwyr allan o'r Deml. "Ewch â'r rhain allan," gorchmynnodd. "Stopiwch droi tŷ fy Nhad yn farchnad." Roedd Iesu'n caru tŷ ei Dad.





Gofynnodd yr arweinwyr i'r Iesu am arwydd er mwyn dangos fod ganddo'r hawl i glirio'r Deml.



“Dinistriwch
y Deml hon
ac fe wna i ei
hadeiladu hi
eto mewn tri
diwrnod,”
atebodd Iesu.
Amhosib!
Roedden nhw
wedi bod yn
adeiladu’r Deml
ers pedwar-deg
chwech o
flynyddoedd.

Ond roedd Iesu'n siarad am ei gorff. Er bod Iesu'n mynd i farw ar y groes, roedd e'n gwybod y byddai Duw yn ei atgyfodi ar ôl tri diwrnod.





Wedi iddi nosi,
daeth un o
arweinwyr y deml
at Iesu.  Roedd y
gwyrthiau wedi
profi iddo fod Iesu
wedi ei anfon gan
Dduw.  Daeth
Nicodemus at Iesu
er mwyn dysgu
mwy am Dduw.



Dywedodd Iesu wrth Nicodemus fod yn rhaid i bobl gael eu geni eto cyn cael mynd i mewn i Deyrnas Dduw.  Doedd Nicodemus ddim yn deall.  Sut allai oedolyn fod yn fabi eto?  A beth bynnag, roedd e'n ddyn crefyddol. Oedd hynny ddim yn ddigon?



“Mae’r hyn sy’n dod o’r ysbryd yn ysbryd,” eglurodd Iesu. “Mae Ysbryd Duw fel y gwynt- rydych chi’n gweld beth mae’r gwynt yn ei wneud, ond allwch chi ddim gweld y gwynt ei hun.”



Atgoffodd Iesu Nicodemus fel roedd pobl Israel wedi cwyno wrth Moses amser maith yn ôl.  Roedden nhw'n dweud, "Does gennon ni ddim bwyd, dim dŵr, ac mae'n gas gennon ni'r bara mae Duw yn ei roi i ni."

Fe wnaeth drygioni'r bobl wneud Duw yn flin. Anfonodd nadroedd gwenwynig atyn nhw. Fe wnaeth y nadroedd frathu'r bobl ac fe wnaeth llawer ohonyn nhw farw.



Fe wnaeth y bobl grefu ar Moses, “Rydyn ni wedi pechu. Plîs gweddïa y bydd yr ARGLWYDD yn cymryd y nadroedd yma i ffwrdd.” Felly fe wnaeth Moses weddïo drostyn nhw. Ond gwrthododd Duw wneud i’r nadroedd fynd i ffwrdd.



Dywedodd Duw wrth Moses am wneud neidr bres a'i gosod ar bolyn. "Bydd pwy bynnag sy'n cael ei frathu yn cael byw os bydd e'n edrych ar y neidr ar y polyn," addawodd Duw. Fe wnaeth Moses hyn ac fe gafodd pawb oedd yn edrych arni eu gwella.





Dywedodd Iesu wrth
Nicodemus y byddai Mab
y Dyn yn cael ei godi'n
uchel fel y neidr bres.
Roedd Iesu'n siarad
am y groes lle
byddai'n marw.


Dywedodd Iesu,
“Mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.”


Mae hyn yn golygu bod pwy bynnag sy'n credu yn Iesu yn dod yn rhan o deulu Duw.

Efallai na ddaeth Nicodemus yn ddisgybl i Iesu y noson honno, ond blynyddoedd yn ddiweddarach, dangosodd Nicodemus ei fod yn caru ac yn credu yn Iesu – fe wnaeth e gynorthwyo i gladdu Mab Duw wedi'r croeshoeliad.



Ar ôl hyn, fe wnaeth Iesu a'i ddisgyblion gychwyn ar daith i'r Gogledd. Roedd pobl eraill angen clywed am Deyrnas Dduw, a chael cyfle i gredu yn Iesu o Nasareth, Mab Duw.



Un o arweinwyr y Deml yn dod at Iesu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Ioan 2-3, Numeri 21

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol.
Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16